# Gair gan y Cadeirydd
## *Chairperson's Message*



Mae wedi bod yn flwyddyn rhyfedd iawn eto eleni. Gydqa chydig iawn o gysylltiad mae'n anodd iawn anfon positifrwydd yn nol I'r gymdeithas a'r aelodau. Mae wastad yn bleser clywed gan aelodau am eu brwdfrydedd am y brid. I bawb sydd wedi cysylltu gyda fi gyda unrhyw ymholiadau neu chwestiynnau mae wedi bod yn fraint cael eich gwasanaethu. Diolch yn fawr iawn am eich cefnogaeth. Gwn y bu llawer o wrthdaro yn ystod y pandemig hwn rhwng llawer ohonom o ran beth yw'r ffordd orau o weithredu i gynnal cyfarfodydd ac yn y blaen. Ond ar ddiwedd y dydd, gobeithio y gallwn oll gytuno mai'r rheswm yr ydym yn rhan o'r gymdeithas hon ydy i wella a hyrwyddo'r brîd a peidio â syrthio allan ymysg ein gilydd. Rydym yn grwp arbennig o bobol sydd wastad yn dod at ei'n gilydd pan mae angen a mawr rwyf yn gobeithoi y parhaed hyn.

Yn anffodus, doeddwn I ddim yn gallu mynychu'r arwerthiant blynyddol yn y Trallwng. O dan yr amgylchiadau, credaf fod pethau wedi mynd yn dda iawn a diolch am y gefnogaeth barhaus. Roedd y gefnogaeth a gafwyd gan yr aelodau yn arwerthiant Robin Williams ym Mart Bryncir wedi cael ei werthfawrogi yn fawr gan y teulu oll, ac mae'n braf clywed bod nifer ohonoch wedi prynnu stock o ddiadell safon uchel iawn. Dymunaf y gorau o iechyd i bob un ohonoch a gobeithiaf eich gweld i gyd yn y dyfodol agos.

*It's been a very strange year once again. With so little contact it's very difficult to report very much positivity. It's always nice to hear from members who are so enthusiastic about our breed. Every one of you who has contacted me with any queries and questions it has been an absolute privilege once again to serve you. Thank you all for your support. I know there has been a lot of conflict during this pandemic between many of us as to what is the best course of action to take about meetings and so forth. But at the end of the day I hope we can all agree that at the end of the day the reason we are a part of this society is to better and promote the breed and not to fall out and bicker amongst ourselves. We are a wonderful group of people who always seem to come together when it matters and long may this continue.*

*Sadly, I was unable to attend the society sale at Welshpool. Under the circumstances I believe that things went well and well done for the continued support. The support of members at the Robin Williams dispersal was very much appreciated by the family and It was nice to hear that so many of you purchased a part of a quality flock. I wish every one of you the best of health and hope to see you all in the near future.*

Mr Geoff Duggins